# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR)** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Sarah Lamberton** |
| **Adran:** | **Diogelu ac Eirioli** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Sarah Cooper** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Prif Weinidog** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Medi 2022** |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Bydd canllawiau statudol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yn cael eu cyhoeddi o dan adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[1]. Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cynnwys sawl rhan gydgysylltiedig, fel y'u gosodwyd yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[2], *Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (2004)*[3] ac adran 24 o *Ddeddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022* a *Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol) 2022*[4].

Nod datblygu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yng Nghymru yw:

a) Adeiladu ar yr arferion da a ddaeth i'r amlwg o greu'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant a ddisodlodd y canllawiau Adolygiad Achos Difrifol blaenorol ym mis Ebrill 2016. Cafodd prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant eu gosod yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[5] er mwyn sicrhau y gellir cael gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod digwyddiad a pham y digwyddodd. Mae'r dull gweithredu yn gwella'r ddealltwriaeth o effeithiau a gafodd gweithredoedd sefydliadau ac asiantaethau ac a allai camau gwahanol fod wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg. Y nod cyffredinol yw creu amgylchedd dysgu.

b) Gweithredu canfyddiadau adolygiad academaidd 2018 dan arweiniad yr Athro Amanda Robinson (2018)[6] o Brifysgol Caerdydd ac adolygiad ymarferydd Llywodraeth Cymru gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (2018)[7]. Roedd yr adroddiadau'n dadansoddi'r dirwedd bresennol ar gyfer adolygiadau diogelu ochr yn

---

[1] Adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Adran 139

[2] Rheoliad 4(3) a 4(4). Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

[3] Adran 9(1). Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

[4] Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol) 2022 Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd

[5] *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.* https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1466/contents/made/welsh

[6] Robinson, A., Rees, A. a Dehaghani, R. (2018) '*Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews'*

[7] James, L. (2018) '*Domestic Homicide Reviews in Wales: Illuminate the Past to Make the Future Safer'*

ochr â sampl o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i wella prosesau cydlynu, cydweithio, cyfathrebu, a llywodraethu wrth gynnal adolygiadau yng Nghymru. Fe wnaeth yr adroddiadau argymhellion yn seiliedig ar eu canfyddiadau sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhrosesau newydd y system SUSR. Fe wnaeth yr adroddiadau ddatgelu hefyd gymhlethdod cyrff datganoledig a heb eu datganoli yn cynnal adolygiadau ar wahân ac, mewn rhai achosion, heb yn wybod i Lywodraeth Cymru a heb ei chyfraniad. Arweiniodd hyn yn y pen draw at yr argymhelliad am broses adolygiad sengl.

Roedd y dystiolaeth gyfunol o'r adolygiad academaidd a'r adolygiad ymarferwyr a grybwyllir uchod yn rhoi tystiolaeth bwerus i Weinidogion Cymru o blaid yr angen am newid yng nghyswllt y prosesau adolygu yng Nghymru. O ganlyniad, datblygwyd y broses SUSR i gryfhau'r dirwedd adolygu yng Nghymru. Nod yr SUSR yw:

- creu un broses adolygu sy'n ymgorffori dull amlasiantaeth lle bodlonir y meini prawf ar gyfer **un neu ragor** o'r adolygiadau canlynol:
    - Adolygiad Ymarfer Oedolion;
    - Adolygiad Ymarfer Plant;
    - Adolygiad Lladdiad Domestig;
    - Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; ac
    - Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol[8].
- dileu'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn cylch beichus a thrawmatig o roi gwybodaeth a disgwyl;
- creu corff cenedlaethol sy'n darparu rôl gydlynu/gweithredol i oruchwylio'r broses yn ei chyfanrwydd (Hyb Cydgysylltu'r SUSR);
- sicrhau bod y broses lywodraethu y cytunwyd arni ar waith ac yn effeithiol.
- sicrhau ei fod yn dangos cysylltiadau clir rhwng rhanbarthau a chyrff cenedlaethol gan barchu'r un pryd amrywiadau rhanbarthol mewn trefniadau; a
- chadw Adroddiad terfynol yr adolygiad mewn ystorfa ganolog (Cronfa Gwybodaeth Ddiogelu Cymru) a hwyluso hyfforddiant Cymru gyfan a dysgu lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r SUSR yn cyd-fynd â'n dyhead ehangach am Wasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un. Yn unol â'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru),* rydym yn gwybod mai dim ond os ydym yn cefnogi dull integredig a chydweithredol o ran polisi a chyflawni sy'n chwalu seilos, yn dwyn ynghyd ddealltwriaeth o wahanol feysydd arbenigedd ac yn annog gwaith partneriaeth ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan yn ogystal â gyda phartneriaid cymdeithasol ehangach y gallwn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

[8] Bydd Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol yn cael eu treialu (2023) gan ddefnyddio'r broses SUSR yng Nghymru, ac felly gallant newid.

Mae'r SUSR yn gosod fframwaith ar gyfer sut y dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol weithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau eraill yn yr ardal fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn diogelu pobl rhag niwed - rhannu gwersi a sicrhau ein bod yn cydweithio i sicrhau lles pob person yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, datblygwyd rhwydwaith cymorth ar gyfer y broses SUSR. Dyma grynodeb o'r systemau newydd a grybwyllir uchod:

## CRONFA GWYBODAETH DDIOGELU CYMRU

a) Bydd yr holl SUSR sydd wedi'u cwblhau yn cael eu cadw yng Nghronfa Gwybodaeth Ddiogelu Cymru. Bydd eu canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio dysgu ar sail Cymru gyfan drwy greu adroddiadau thematig. Gweler adran Cronfa Gwybodaeth Ddiogelu Cymru yn adran 8 o'r canllawiau hyn am ragor o fanylion.

## HYB CYDGYSYLLTU'R SUSR

b) Rôl Hyb Cydgysylltu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yw cefnogi'r broses SUSR a helpu i nodi a lledaenu'r negeseuon, themâu, a materion allweddol, drwy gydweithio â Chronfa Gwybodaeth Ddiogelu Cymru, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a phartneriaid a phartneriaethau allweddol eraill. Bydd yr Hyb Cydgysylltu yn casglu canlyniadau Digwyddiadau Dysgu gan sicrhau bod yr holl ganlyniadau'n cael eu lledaenu ledled Cymru, a chyda chyrff perthnasol yn y DU pan fo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant ar thema a digwyddiadau lledaenu gwybodaeth ar thema bob dwy flynedd (gweler adran 8 o'r canllawiau hyn am ragor o wybodaeth) er mwyn rhannu arferion da a gwersi a ddysgwyd ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgu'n cael ei gyflawni a'i weithredu i ddiogelu unigolion a chymunedau ledled Cymru.

## BWRDD GWEINIDOGOL SUSR CYMRU

c) Mae'r Bwrdd Gweinidogol yn darparu goruchwyliaeth wleidyddol a strategol o SUSR, gan sicrhau bod materion cenedlaethol yn cael eu hystyried a sicrhau ymateb ar lefel Cymru gyfan pan fo angen. Bydd y Bwrdd yn darparu cefnogaeth ar gyfer newidiadau deddfwriaethol a sicrhau'r adnoddau angenrheidiol fel y gellir gweithredu a rhannu arferion gorau. Bydd y Bwrdd yn gweithredu fel llwyfan hefyd i uwchgyfeirio unrhyw faterion rhanbarthol a nodir sy'n gofyn ymateb cenedlaethol neu ar lefel y DU. Gweler adran 5 am rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gweinidogol.

**Canlyniadau ac Effaith**

Y canlyniad cyffredinol yw creu dull rhagweithiol o symud atebion yn eu blaen a diwylliant cadarnhaol o ddysgu ar y cyd, sy'n ofyniad hanfodol ar gyfer sicrhau gwasanaethau amlasiantaeth effeithiol a gwell. Felly, mae proses adolygu sengl, ac nid adolygiadau lluosog ar ddigwyddiad, yn creu dull symlach ond manwl. Bydd y dull hwn yn lleihau trawma pellach i deuluoedd ac yn lleihau achosion posibl o ddyblygu ymdrechion, sy'n defnyddio adnoddau, a bydd yn darparu dysgu mewn modd amserol a chymesur.

Bydd canlyniadau'r broses SUSR yn cael effeithiau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol ar arferion ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- bydd yr SUSR yn darparu un broses ar gyfer naill ai adolygiad sengl neu luosog yng Nghymru, gan ei gwneud yn gliriach i'r holl asiantaethau partner sy'n rhan o'r broses;
- bydd y broses SUSR yn lleihau trawma i destun yr adolygiad, ei deulu, a phrif unigolion eraill drwy gynnal adolygiad sengl yn hytrach nag adolygiadau lluosog;
- bydd yr holl argymhellion o Adroddiadau SUSR yn cael eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu, eu monitro, a'u lledaenu ar hyd a lled Cymru gan Hyb Cydgysylltu'r SUSR. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu er mwyn gwella arferion;
- bydd y system lywodraethu'n sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n goruchwylio argymhellion ar gyfer gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei gyflawni lle mae angen uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Gweinidogol;
- bydd Cronfa Gwybodaeth Ddiogelu Cymru yn galluogi ymarferwyr sydd â mynediad at y Gronfa Gwybodaeth i gydgasglu'r dysgu o Adroddiadau SUSR er mwyn cynhyrchu adroddiadau thematig. Bydd y dysgu o'r adroddiadau thematig yn cael ei ledaenu'n genedlaethol gan Hyb Cydgysylltu'r SUSR; a
- bydd esblygiad arferion yn y ffordd hon yn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus. Bydd hyn yn helpu i atal digwyddiadau tebyg ac yn y pen draw yn lleihau niwed yn y dyfodol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

(Noder y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Datblygwyd y broses gyfan ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl. Maent wedi gallu dangos tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol y bydd y cynnig hwn yn eu cael ar y grwpiau hyn gydol y broses ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn ymarferol. Roeddem yn ofalus i osgoi achosi trawma drachefn i'r unigolion drwy weithio gyda'u heiriolwyr a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda nhw. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau trydydd sector a oedd yn cynrychioli ac yn gweithio ochr yn ochr â phobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Roedd hyn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth i'w profiadau gael eu casglu, ond nad oedd rhaid iddynt fynychu cyfarfodydd na wynebu grwpiau mawr o ymarferwyr eu hunain.

Mae cynlluniau peilot SUSR wedi'u cynnal gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru. Pe bai plant yn rhan o'r achos (naill ai fel dioddefwyr uniongyrchol, neu fel aelodau o deulu testun yr adolygiad), yna byddent wedi cael cyswllt â'r broses SUSR fel rhan o'r broses hon.

Roedd y grwpiau Gorchwyl a Gorffen a'r Grŵp Llywio, a fu'n helpu i ddatblygu'r broses SUSR, yn cynnwys rhanddeiliaid y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Fe wnaeth y grwpiau sicrhau y byddai'r holl ddeunyddiau a luniwyd a oedd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys yr holl dempledi, hyfforddiant ac adnoddau dysgu a fydd yn cael eu cynhyrchu ar hyd y broses SUSR.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Bydd y mesurau yn y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a'r oedolion sy'n wynebu risg y mae'r broses SUSR yn ceisio eu hamddiffyn. Yn unol â'r *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[9], bydd y broses SUSR yn cynhyrchu dysgu drwy adolygiadau a fydd yn llywio ac yn gwella arferion a gwasanaethau wrth symud ymlaen. Yn ei dro, bydd hyn yn amddiffyn ac yn diogelu cymunedau rhag niwed yn well. Bydd y broses SUSR yn sicrhau wedyn bod y dysgu hwn

---

[9] *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.*
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1466/contents/made/welsh

yn cael ei ledaenu ledled Cymru er mwyn rhannu gwybodaeth werthfawr ar hyd a lled rhanbarthau. Bydd y cynnig yn helpu gwasanaethau i addasu a newid eu harferion yn seiliedig ar y cymunedau yng Nghymru sy'n newid yn gyson.

Lluniwyd y broses SUSR gan ymarferwyr er mwyn datblygu proses fwy effeithiol ac effeithlon a fydd yn fanwl, ond yn symlach o ran dull, drwy:

- gyflwyno adolygiad sengl ac nid adolygiadau lluosog ar ddigwyddiad;
- creu dull symlach ond manwl ar gyfer adolygiadau sy'n lleihau trawma i deuluoedd ac sy'n lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion, sy'n defnyddio adnoddau, ac yn cyflawni'r gwerth gorau;
- llunio adroddiad adolygu sy'n ymwneud â gwella darpariaeth gwasanaethau gyda Chynllun Gweithredu clir a fydd yn cael ei fonitro gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol perthnasol a'r Hyb Cydgysylltu’r SUSR (a'r Bwrdd Goruchwylio Lladdiadau gydag Arfau Ymosodol lle bo hynny'n berthnasol);
- sicrhau bod y dioddefwr/teulu yr effeithiwyd arnynt wrth wraidd y broses adolygu; a
- galluogi rhannu gwybodaeth, argymhellion, a dysgu thematig i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cynnig hwn yn broses newydd a fydd yn cyfrannu at atal digwyddiadau difrifol ar draws Cymru gyfan drwy gynhyrchu a rhannu dysgu amlasiantaeth.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau’r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a / neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Cymru lewyrchus** – Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol fach iawn ar les economaidd unigolion ac effaith gadarnhaol fach iawn ar gymunedau. Bydd llai o drawma i'r dioddefwr neu'r teulu o ganlyniad i gynnal un adolygiad yn unig yn hytrach na nifer yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfleoedd addysgol.

**Cymru gydnerth** – Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar wytnwch gwasanaethau Cymru. Bydd y broses o rannu gwybodaeth rhwng sawl asiantaeth yn sicrhau bod gwasanaethau ac asiantaethau yn cael eu paratoi'n briodol i gefnogi unigolion ar sail eu hanghenion gwahanol.

**Cymru iachach** - Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar ganlyniadau lles meddyliol a chorfforol i unigolion. Gall y system adolygiadau lluosog sydd ar waith ar hyn o bryd beri trawma drachefn i ddioddefwyr neu deuluoedd ac felly cael

effaith negyddol ar eu lles. Bydd y broses SUSR yn dileu'r angen am adolygiadau lluosog ac felly bydd yn cael effaith gadarnhaol ar les. Mae effeithiau hirdymor y cynnig hwn yn golygu hefyd y bydd mwy o blant ac oedolion sy’n wynebu risg yn cael eu diogelu rhag niwed a fydd yn cael effaith gadarnhaol felly ar eu lles meddyliol a chorfforol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal –** Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol gymedrol ar gydraddoldeb. Mae'r cynigion yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys iechyd meddwl, anabledd, oedran, rhywedd ac ethnigrwydd.[i] Mae canllawiau statudol SUSR yn cynnig cyngor ar sut i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol ac yn sicrhau bod modd addasu'r broses ar sail eu hanghenion. Bydd Hyb Cydgysylltu’r SUSR yn monitro unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg ac yn ymateb iddynt gydol y gweithredu a thu hwnt.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Mae gan y cynigion botensial i gael effaith gadarnhaol fach iawn ar gyfranogiad yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Mae pobl nad ydynt yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y cyfleoedd hyn. Mae'r cyngor yn y canllawiau yn cynnwys cyngor ar ddiwallu anghenion iaith pobl drwy fynd ati i gynnig gwasanaethau Cymraeg.

**Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Effaith niwtral

### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a’i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd y prosiect SUSR yn cael ei adolygu drwy'r Hyb Cydgysylltu a bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r adolygiad hwnnw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn gweithio i bawb.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl.

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dyddiad:

07/12/2022

## ASESIADAU EFFAITH LLAWN

### A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch post CRIA@llyw.cymru


Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u pwerau.

Proses yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

---

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant ers tro, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.*

---



*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â'r Llawlyfr Hawliau Plant ar gyfer Staff neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru*

## 1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Bydd y broses Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei disodli gan y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR).

Aethpwyd ati i ddatblygu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yng Nghymru i adeiladu ar yr arferion da a ddaeth i'r amlwg o greu'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant a ddisodlodd y canllawiau Adolygiad Achos Difrifol blaenorol ym mis Ebrill 2016. Cafodd y prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion a'r Adolygiad Ymarfer Plant eu gosod yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[10] er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod digwyddiad a pham y digwyddodd. Mae'r dull gweithredu yn gwella'r ddealltwriaeth o effeithiau a gafodd gweithredoedd sefydliadau ac asiantaethau ac a allai camau gwahanol fod wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg. Y nod cyffredinol yw creu amgylchedd dysgu.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

Bydd y broses SUSR yn gweithredu canfyddiadau adolygiad academaidd 2018 dan arweiniad yr Athro Amanda Robinson (2018)[11] o Brifysgol Caerdydd, ac adolygiad ymarferydd Llywodraeth Cymru gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (2018)[12]. Roedd yr adroddiadau'n dadansoddi'r dirwedd bresennol ar gyfer adolygiadau diogelu ochr yn ochr â sampl o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Ymarfer Oedolion,

---

[10] *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.* https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1466/contents/made/welsh

[11] Robinson, A., Rees, A. a Dehaghani, R. (2018) *'Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews'*

[12] James, L. (2018) *'Domestic Homicide Reviews in Wales: Illuminate the Past to Make the Future Safer'*

Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i wella prosesau cydlynu, cydweithio, cyfathrebu, a llywodraethu wrth gynnal adolygiadau yng Nghymru. Fe wnaeth yr adroddiadau argymhellion yn seiliedig ar eu canfyddiadau sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhrosesau newydd y system SUSR. Fe wnaeth yr adroddiadau ddatgelu hefyd gymhlethdod cyrff datganoledig a heb eu datganoli yn cynnal adolygiadau ar wahân ac mewn rhai achosion heb yn wybod i Lywodraeth Cymru a heb ei chyfraniad. Arweiniodd hyn yn y pen draw at yr argymhelliad am broses adolygu sengl.
Yn seiliedig ar yr ymchwil uchod, mae'r broses SUSR wedi'i datblygu i gryfhau'r dirwedd adolygu yng Nghymru. Nod yr SUSR yw:

- creu un broses adolygu sy'n ymgorffori dull amlasiantaeth lle bodlonir y meini prawf ar gyfer un neu ragor o'r adolygiadau canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiad Lladdiadau ag Arf Ymosodol. Bydd hyn yn dileu'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn cylch beichus a thrawmatig o roi gwybodaeth a disgwyl;
- creu corff cenedlaethol sy'n darparu rôl gydlynu/gweithredol i oruchwylio'r broses yn ei chyfanrwydd (Hyb Cydgysylltu'r SUSR);
- sicrhau bod proses lywodraethu y cytunwyd arni ar waith ac yn effeithiol.
- sicrhau ei fod yn dangos cysylltiadau clir rhwng rhanbarthau a chyrff cenedlaethol gan barchu'r un pryd amrywiadau rhanbarthol mewn trefniadau; a
- chadw adroddiad terfynol yr adolygiad mewn ystorfa ganolog (Cronfa Gwybodaeth Ddiogelu Cymru) a hwyluso hyfforddiant lefel Cymru gyfan a dysgu lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol.

Datblygwyd y broses gyfan ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent wedi gallu dangos tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol y bydd y cynnig hwn yn eu cael ar blant a phobl ifanc ar hyd y broses ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn ymarferol.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau[13] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

Bydd y broses SUSR yn creu dull symlach ond manwl o gynnal adolygiadau sy'n lleihau trawma i deuluoedd, yn lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion, sy'n defnyddio adnoddau, ac yn cyflawni'r gwerth gorau. Bydd yn sicrhau bod y dioddefwr a'r teulu sydd wedi'u heffeithio wrth wraidd y broses adolygu.

---

[13]Er enghraifft, gallech ystyried sut byddai'ch polisi yn effeithio'n wahanol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; Plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant â phrofiad o ofal; Plant LHDTQ+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac na fydd pawb o fewn y carfanau hyn yn rhannu'r un profiad.

- Pa waith yn cynnwys plant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.[14]

Datblygwyd y broses gyfan ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent wedi gallu dangos tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol y bydd y cynnig hwn yn eu cael ar blant a phobl ifanc ar hyd y broses ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn ymarferol. Roeddem yn ofalus i osgoi achosi trawma drachefn i'r plant a'r bobl ifanc drwy weithio gyda'u heiriolwyr a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda nhw yn hytrach na'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Roedd hyn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth i'w profiadau gael eu casglu, ond nad oedd rhaid iddynt fynychu cyfarfodydd na wynebu grwpiau mawr o ymarferwyr eu hunain.

Mae cynlluniau peilot SUSR wedi'u cynnal gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru. Pe bai plant yn rhan o'r achos (naill ai fel dioddefwyr uniongyrchol, neu fel aelodau o deulu gwrthrych yr adolygiad), yna byddent wedi cael cyswllt â'r broses SUSR fel rhan o'r broses hon.

---

*I gael cyngor ar waith yn cynnwys plant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas ers tro â Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy eu rhaglen Cymru Ifanc.*

---

**3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd y broses SUSR yn creu dull symlach ond manwl o gynnal adolygiadau sy'n lleihau trawma i deuluoedd, yn lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion, sy'n defnyddio adnoddau, ac yn cyflawni'r gwerth gorau. Bydd yn sicrhau bod y dioddefwr a'r teulu sydd wedi'u

[14]Dywed Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

heffeithio wrth galon y broses adolygu.

Mae'r canllawiau ymgysylltu ar gyfer rhyngweithio â phlant a phobl ifanc wedi'u cynnwys yn adran '*Ymgysylltu â Theulu a Phrif Unigolion yn y broses Diogelu Unedig Sengl*'' o Ganllawiau Statudol SUSR. Cafodd y rhain eu creu gydag ymarferwyr (gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector) sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn prosesau adolygu. Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad i ymarferwyr a fydd yn ymgysylltu â dioddefwyr a theuluoedd (gan gynnwys plant) ar hyd y broses gyfan. Bydd ymarferwyr yn cael hyfforddiant SUSR hefyd a fydd yn cynnwys adran sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi'r broses ar gyfer ymgysylltu.

- Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn Gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 1<br><br>Mae gan bawb dan 18 oed yr holl hawliau yn y Confensiwn hwn | X | | Proses symlach sy'n lleihau trawma. Mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio wedyn i atal niwed pellach a digwyddiadau tebyg. |
| Erthygl 3<br><br>Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Bydd y broses SUSR yn creu dysgu ac yn lledaenu hyn ledled Cymru i bob sefydliad sydd â chysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed fel gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i wella ymarfer er mwyn sicrhau bod cymunedau'n derbyn y cymorth gorau i'w hanghenion. |
| Erthygl 12<br><br>Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio | X | | Bydd plant (sy'n destun yr adolygiad neu'n perthyn mewn rhyw ffordd i destun yr adolygiad) yn rhan o'r broses SUSR os ydynt yn dymuno. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried. | | | hunain o'u safbwyntiau nhw. Bydd ganddynt lais o ran a ydynt am fod yn rhan o'r broses ac i ba raddau. |
| Erthygl 13<br><br>Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth a rhannu gwybodaeth cyn belled nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill. | X | | Bydd plant (sy'n destun yr adolygiad neu'n perthyn mewn rhyw ffordd â'r gwrthrych) yn gallu cael gafael ar wybodaeth briodol am y broses adolygu a byddant yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn ystod eu hadolygiad. |
| Erthygl 19<br><br>Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael y gofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, cam-drin ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. | X | | Bydd y broses SUSR yn creu dysgu ac yn lledaenu hyn ledled Cymru i bob sefydliad sydd â chysylltiad â phlant ac oedolion agored i niwed fel gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i wella ymarfer er mwyn sicrhau bod cymunedau'n derbyn y cymorth gorau i'w hanghenion. |
| Erthygl 27<br><br>Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd sy'n methu â fforddio darparu hyn. | X | | Bydd y broses adolygu yn cynhyrchu dysgu y gellir ei ddefnyddio i wella gwasanaethau sydd â'r nod o helpu plant a phobl ifanc. Yna gellir gwella'r gwasanaethau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y gwasanaethau mewn gwell sefyllfa wedyn i helpu plant ac i wella eu safon byw. |
| Erthygl 32<br><br>Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai niweidio eu hiechyd neu eu haddysg. | | | Amddiffyn plant ac oedolion bregus rhag niwed yw nod cyffredinol y broses SUSR. O'r dysgu sy'n cael ei gynhyrchu a'i ledaenu o'r adolygiadau, bydd gwasanaethau i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 33<br><br>Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o amddiffyn plant rhag cyffuriau peryglus.<br><br>Erthygl 34<br><br>Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol.<br><br>Erthygl 35<br><br>Dylai'r Llywodraeth sicrhau nad yw plant yn cael eu herwgydio na'u gwerthu.<br><br>Erthygl 36<br><br>Dylai plant gael eu hamddiffyn rhag unrhyw weithgareddau a allai niweidio eu datblygiad. | | | atal y math hwn o gam-drin yn cael eu gwella a'u diweddaru i ddiwallu anghenion sy'n newid yng nghymunedau Cymru. |
| Erthygl 39<br><br>Dylai plant sydd wedi eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch. | | | Nod y broses SUSR yw helpu i wella gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin. |

*I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r Dudalen Fewnrwyd Hawliau Plant.*

**4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog**

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Bydd yr asesiad o'r effaith yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cyngor gweinidogol i gymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus SUSR.

- *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gymeradwyo gan eich Dirprwy Gyfarwyddwr.*

- *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu hintegreiddio yn eich cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.*

**5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwe adrannol i'w gyhoeddi.*

- *Rhaid anfon* ***pob*** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch post *CRIA@llyw.cymru hefyd.*

---

*I gael rhagor o wybodaeth a chefnogaeth am y broses hon, ewch i'r Dudalen Fewnrwyd Hawliau Plant sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

---

**6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc**

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy'r broses ymgynghori gyhoeddus ar Ganllawiau Statudol SUSR.

---

*Os yw eich polisi yn effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant i gael rhagor o gyngor.*

---

**7. Monitro ac Adolygu**

Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i nodi a welwyd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-deddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen i chi ddiweddaru'r Asesiad i ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailedrych ar y fersiwn o'u Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd, ei ailenwi'n adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a diweddaru'r dystiolaeth o effaith. Dylid cyflwyno'r Asesiad Effaith a Adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion ynghylch diwygio'r polisi, yr arfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi’r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a adolygwyd hwn hefyd.

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu’r Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant.

Bydd y prosiect SUSR yn cael ei adolygu drwy'r Hyb Cydgysylltu a bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r adolygiad hwnnw.

- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i’r polisi neu’r modd y'i rhoddir ar waith?

Ni fyddwn yn gwybod a oes angen newidiadau nes cynhelir yr adolygiad.